



22/10/12

I Rieni Blwyddyn 11 – Parthed Arholiadau ac Asesiadau

Annwyl riant / Warcheidwad

Fel yr ydych yn ymwybodol wrth gwrs mae eich plentyn erbyn hyn hanner tymor i mewn i'w flwyddyn 11 yma yn Ysgol Tryfan. Dyma flwyddyn dyngedfennol wrth gwrs sy'n arwain yn y pendraw at gymwysterau allanol hollbwysig yn ystod haf 2013.

Ers blynnyddoedd ceir cyfle i gwblhau tasgau ac arholiadau sy'n rhan o'r cymhwyster terfynol yn ystod blwyddyn 10 ac 11, fodd bynnag gan fod natur arholiadau yn newid yn gyson ceisiwn yma grynhoi i chi fel rhieni beth yw'r gofynion yn ystod y flwyddyn allweddol hon.

Yn Ysgol Tryfan cymwysterau TGAU gyda'r bwrdd arholi CBAC yw'r prif gymhwyster a gyflwynir i'n disgyblion. Er bod amrywiaethau mawr o bwnc i bwnc mae TGAU ar y cyfan yn cyfuno Asesiadau dan Reolaeth, sydd yn cael eu cyflawni yn yr ystafell ddosbarth, gydag arholiadau ffurfiol ar adegau penodol. Gellir cael mwy o wybodaeth am asesiadau dan reolaeth, a'r lefel o reolaeth a ddisgwyllir ym mhob pwnc, ar y wefan www.cbac.co.uk. Ceir cyfnodau arholiadau allanol wedyn ym mis Ionawr ac yn yr haf, a gwelir y rhain yn glir ar galendr yr ysgol.

Yr hyn a geisiwn ei wneud yn y llythyr hwn yw cyflwyno gwybodaeth i chi am bob pwnc a'r hyn y bydd eich plentyn yn ei gyflawni tuag at y TGAU ar adegau penodol. Un ffactor sydd yn effeithio ar amserlen yr asesiadau hyn yw rheol derfynol newydd TGAU sy'n mynnu fod **yn rhaid** i bob dysgwr gyflawni o leiaf 40%, a gallent gymryd hyd at 100%, o'r asesiad yn y gyfres arholiadau derfynol pan fyddant yn ardstio - haf 2013 fydd hyn ar gyfer disgyblion blwyddyn 11. Mae'r gofyn terfynol hwn o 40% yn golygu colli rhywfaint o'r hyblygrwydd o ran sut y gallai disgyblion symud trwy'r cwrs.

Bydd arholiadau mewnol yn yr ysgol yn ogystal gyda'r papurau yn cael eu gosod gan ein hathrawon ni yma yn Ysgol Tryfan. Mae'r ffug-arholiadau hyn hefyd ar galendr yr ysgol – Rhagfyr 13-21 2012.

Yn ogystal â'r cymwysterau TGAU rydym yn paratoi ein disgyblion ar gyfer cymwysterau galwedigaethol megis BTEC a'r OCR Cenedlaethol ym maes TGCh. Mae hi'n anos rhoi dyddiadau penodol yn y meysydd hyn oherwydd nad oes arholiadau a'u bod yn llwyr ddibynnol ar asesiadau parhaus yn yr ystafell ddosbarth.

Cyn cloi hoffwn dynnu sylw at gymhwyster ychwanegol a fydd yn cael ei gwblhau gan eich plentyn yn ystod blwyddyn 11 sef Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, a hynny ar y lefel Ganolradd. Bellach nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu'r pamffledi gwybodaeth i rieni y byddem yn dymuno eu rhannu â chi – ond maent ar gael ar ffurf pdf. ynghyd â llawer mwy o wybodaeth am Gymhwyster Bagloriaeth Cymru ar eu gwefan - www.wbq.org.uk. Dyfynnaf yn gryno yma oddi ar y wefan:

Beth mae Bagloriaeth Cymru yn ceisio'i gyflawni'?

Trwy ychwanegu sgiliau datblygiad personol at gymwysterau galwedigaethol neu astudiaethau academiaidd, mae Bagloriaeth Cymru'n helpu pobl ifanc i gyflawni mwy. Mae'n eu harfogi'n well ar gyfer byd gwaith, yn rhoi gwell gwybodaeth iddynt ac yn eu gwneud yn ddinasyddion mwy brwd.

Mae'n caniatáu mwy o hyblygrwydd iddynt yn eu hastudiaethau, pa gyfuniad bynnag o gyrsiau y maent yn eu dilyn. Bydd myfyrwyr wedi'u paratoi'n well ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch, yn ogystal ag ar gyfer gwaith.

Mae cymhwyster Bagloriaeth Cymru hefyd yn brawf fod myfyriwr wedi datblygu'r Sgiliau Allweddol a gaiff eu hystyried yn rhai pwysig gan gyflogwyr a phrifysgolion. Mae hefyd yn dangos eu bod wedi ehangu eu haddysg bersonol a chymdeithasol, wedi ymgymryd ag ymchwiliad unigol, wedi cael profiad gwaith, ac wedi chwarae rhan frwd mewn prosiect cymunedol.

Cyflawnir gofynion y Fagloriaeth ar y cyfan o fewn y gwersi Gorwelion yn yr ysgol.

Hyderaf fod hyn o ganllawiau, ynghyd â'r atodiad pynciol, yn cyflwyno gwybodaeth bwysig i chi fel rhieni plant sydd ganol cyfnod mor bwysig yn eu gyrfa ysgol. Diolch i chi eto am eich cefnogaeth

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎ 01248 352 633 ☎ 01248 361 264
pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur